

## Awdurdod Parc Cenedlaethol

27 Gorffennaf 2022

### Yn Bresennol (yn Bersonol)

Cynghorydd Mrs D Clements (Cadeirydd)

Cynghorydd Steve Alderman, Cynghorydd Dr SL Hancock, Cynghorydd M James, Cynghorydd R Jordan, Mr GA Jones, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd Mrs M Wiggins, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams.

### Yn Bresennol (O Bell)

Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss a Mrs J James.

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell 10.00am – 11.20am]

#### 1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall a Dr RM Plummer.

#### 2. **Datgan Buddiannau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

#### 3. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**Penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022.

#### 4. **Materion yn codi**

##### a) Cynrychiolaeth ar Sefydliadau Allanol (Cofnod 6b), Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol 15 Mehefin 2022

Dywedwyd bod Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cadarnhau penodiad y Cynghorydd M Wiggins i'r Ymddiriedolaeth yng nghyfarfod yr Ymddiriedolaeth y diwrnod blaenorol.

#### **Nodwyd.**

##### b) Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg (Cofnod 13, Cyfarfod Cyffredin 15 Mehefin 2022)

Gofynnwyd pryd y byddai adroddiad ar Strategaeth Pum Mlynedd yr Awdurdod yn dod gerbron yr Awdurdod. Dywedodd y swyddog y byddai adroddiad yn adolygu'r cynnydd ers yr adroddiad blaenorol ac yn edrych ymlaen at y pum mlynedd nesaf yn cael ei gyflwyno yn yr Hydref.



## **Nodwyd.**

- c) Rhybudd o Gynnig ynglŷn â Lle Chwarae yn Freshwater East (Cofnod 4a), Cyfarfod Cyffredin 15 Mehefin 2022

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Rhybudd o Gynnig hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol oedd wedi gofyn i swyddogion ymgysylltu ymhellach â Chyngor Cymuned Llandyfái i geisio symud y mater yn ei flaen. Er i'r swyddogion gysylltu, ni chafwyd ymateb, a byddai'r mater yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor pan fyddai argymhelliad yn cael ei wneud i'r Awdurdod ynghylch a oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach. Byddai'r Cynghorydd Kidney yn cael ei hysbysu.

## **Nodwyd.**

### **5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi a Dr M Havard wedi mynychu ymweliad gan Dawn Bowden AoS, y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon, ag Oriel y Parc, pan oedd wedi cael golwg ar yr arddangosfa 'Ar eich Stepen Drws'. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi cael y fraint o gyfarfod Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog Siarl ar ei ymweliad diweddar â Sain Gofan pan gyflwynwyd print iddo o'r Capel i nodi 70 mlwyddiant y Parc; yn dilyn hyn cynhaliwyd cyfarfod gyda Chyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr hefyd wedi mynychu diwrnod cyntaf Sioe Frenhinol Cymru lle'r oeddent wedi mynychu cinio'r Llywydd.

Estynnwyd croeso cynnes i'r Cynghorydd Vanessa Thomas a benodwyd i'r Awdurdod gan Gyngor Sir Penfro yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd P Kidney. Hefyd llongyfarchwyd y Cynghorydd M James ar enedigaeth ei wŷr.

## **Nodwyd.**

### **6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried/er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 18 Mai 2022, 13 Mehefin 2022, 15 Mehefin 2022, 22 Mehefin 2022 a 4 Gorffennaf 2022; a'r
- (ii) Pwyllgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 11 Mai 2022.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.



## 7. Penodiadau Aelodau

Dywedwyd bod nifer o lefydd gwag ar Bwyllgorau a grwpiau'r Awdurdod yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd P Kidney.

**Penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd V Thomas i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ac i'r Fforwm Gweithwyr, a phenodi'r Cynghorydd R Jordan i'r Pwyllgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau.

## 8. Adroddiad ISA260 i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid (oedd hefyd yn Brif Swyddog Ariannol yr Awdurdod) y Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2021/22, ac eglurodd bod y cyfrifon wedi'u cyflwyno i'r Archwilwyr ar 13 Mehefin 2022 a'u bod hefyd wedi'u hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ar 13 Gorffennaf 2022. Aeth y Cadeirydd rhagddo i estyn croeso cynnes i Jason Blewitt o Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Eglurodd mai'r bwriad oedd rhoi barn archwilio ddiamod ar y cyfrifon ac nad oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro, a bod y cywiriadau yn ymwneud yn bennaf â'r modd o gyflwyno'r wybodaeth. Diolchodd i'r Rheolwr Cyllid am ei gymorth gyda'r Archwiliad, gan nodi mai hawdd yw anghofio pa mor anferthol yw'r dasg o baratoi'r cyfrifon a'u harchwilio.

Cytunodd yr Aelodau na ddylid diystyru maint y cyfryw dasg, ac roeddent yn falch o natur ddiamod y farn archwilio. Nodwyd rhai gwallau teipio yn y cyfrifon, ac roedd yr Archwilydd yn hapus y gellid eu cywiro cyn llofnodi'r cyfrifon. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei ddiolch i'r Tîm Cyllid, ac i'r holl staff ar draws yr Awdurdod am eu cyfraniadau oedd wedi arwain at y sefyllfa ariannol gadarnhaol mewn blwyddyn fu'n adeg heriol. Gofynnodd y Cadeirydd am i ddiolchiadau'r Aelodau hefyd gael eu trosglwyddo i'r staff, a diolchodd i'r Tîm Archwilio am eu gwaith.

Nododd yr Aelodau bod incwm y meysydd parcio wedi cynyddu, a dywedodd y swyddogion bod hyn yn rhannol oherwydd cyflwyno codi tâl mewn pedwar maes parcio ychwanegol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod mater codi tâl am feysydd parcio yn debygol o fod yn destun adroddiadau pellach yn ystod y misoedd nesaf.

**Penderfynwyd** : \_

- a) Derbyn yr Adroddiad ISA260 gan Archwilio Cymru; a
- b) Chymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2021/22.

## 9. Dyfarnu Cyllid mewn perthynas â'r Rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Dywedwyd bod yr Awdurdod, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi derbyn cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Tirweddau



Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy. Roedd yr Awdurdod wedi bod yn llwyddiannus eto eleni, ac roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am gyllid tair blynedd o hyd at £2,500,000 dros y cyfnod 2022-2025, y gellid defnyddio cyfran ohono ar gyfer costau gweinyddol a chostau eraill o gyllid refeniw.

Er bod y swyddogion yn cydnabod nad oedd amseriad y broses wedi bod yn ddelfrydol, croesawyd y cyllid tair blynedd, a nodwyd bod themâu'r prosiectau yn cyd-fynd â meysydd strategaeth blaenoriaeth yr Awdurdod sef Adfer Natur, Twristiaeth Gynaliadwy a Datgarboneiddio. Byddai'r cyllid yn caniatáu cyflogi tri aelod ychwanegol o staff ar gontractau cyfnod penodol i gyflawni'r gwaith, ond serch hynny byddai galwadau ychwanegol ar y swyddogion.

Roedd yr Aelodau'n falch bod y cyllid wedi'i ddyfarnu ac yn canmol y swyddogion am eu gwaith yn paratoi'r cynigion llwyddiannus, er gwaethaf y ffaith bod yr amseriad wedi golygu nad oedd amser i'r Aelodau gyfranogi. Awgrymwyd y gellid cyflwyno rhagor o fanylion am bob un o'r prosiectau drwy gynnal gweithdy i'r Aelodau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Sicrhaodd y swyddogion yr Aelodau bod ystyriaeth wedi'i rhoi i weinyddu'r cyllid drwy'r ailstrwythuro arfaethedig ac y byddai rheoli'r risg ariannol, oedd wedi'r cyfan yn grant sylweddol, yn cael ei wneud drwy'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r dyfarniad grant Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a'r newid i gyllidebau refeniw a chyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2022/25 yn sgîl y grant.

## 10. Aelodaeth Pwyllgorau

Atgoffwyd yr Aelodau y dywedwyd yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol ar 15 Mehefin 2022 y byddai ystyried aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn cael ei gadarnhau unwaith y byddai Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod a'r pwyllgorau perthnasol eraill wedi'u penodi. Roedd hyn bellach wedi digwydd ac roedd cyfansoddiadau'r Pwyllgorau a awgrymwyd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Atgoffwyd yr Aelodau hefyd bod Grŵp Datblygu'r Ystafell Werdd wedi'i sefydlu fis Medi 2021 i helpu i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect i ddisodli'r ystafell gyfarfod (werdd) bresennol. Cadeiriwyd y grŵp hwn gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr gyda chymorth swyddogion perthnasol, a phenodwyd y Cynghorwyr P Baker a PJ Morgan yn gynrychiolwyr yr Aelodau. Yn dilyn ymddeoliad y Cynghorydd Baker o'r Awdurdod, roedd angen penodi Aelod i gymryd ei le ar y Grŵp.



**Penderfynwyd :** \_

- a) Cadarnhau aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau fel y nodir yn yr adroddiad.
- b) Penodi'r Cynghorydd R Jordan i wasanaethu ar Grŵp Datblygu'r Ystafell Werdd, ynghyd â'r Cynghorydd P Morgan.

## **11. Polisi Syndrom Dirgryndod Llaw-Braich (HAVS).**

Dywedwyd mai Syndrom Dirgryndod Llaw-Braich (HAVS) yw un o'r risgiau amlycaf i iechyd a diogelwch gweithwyr yr Awdurdod. Er mwyn sicrhau y cydymffurfir yn barhaus â'r Rheoliadau Rheoli Dirgryndod yn y Gwaith 2005, â rhaglen adolygu polisi yr Awdurdod bob tair blynedd, ac â'r dull mwy trylwyr o 'asesu risg' ar gyfer staff sy'n defnyddio offer dirgryndol, roedd y tîm Adnoddau Dynol (AD) wedi ymgynghori â'r staff a'r rheolwyr ar draws yr Awdurdod i ddatblygu polisi a dull gweithredu trosfwaol ar HAVS. Fel rhan o'r broses ymgynghori ehangach, roedd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Adnoddau Dynol wedi gwneud sylwadau ar y polisi, oedd bellach gerbron yr Awdurdod i'w gymeradwyo.

Roedd nifer o sylwadau wedi'u cyflwyno i'r Rheolwr AD cyn y cyfarfod, ac ar ben hynny awgrymwyd y dylid aralleirio'r rheolaethau risg a nodir yn adran 6 y polisi fel bod 'rhaid' (yn hytrach na 'dylid') ystyried y rheolaethau hyn. Cytunodd y Rheolwr AD i ddiwygio'r polisi a rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau y byddai adroddiadau yn monitro'r modd y'u cyflwynir yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol.

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Polisi Dirgryndod Llaw-Braich yn amodol ar y newidiadau a nodir uchod a chyn y cyfarfod.

## **12. Diolch**

Gan nodi mai hwn oedd y cyfarfod olaf i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc fynychu, diolchodd y Cadeirydd iddi am ei gwaith, a dymunodd yn dda iddi i'r dyfodol.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022 heb eu diwygio.

